# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Strategaeth Toiledau Lleol |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd June Jones |
| **Swyddog perthnasol:** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 14 Hydref, 2025 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

Yr ydym yn edrych i'r Cabinet dderbyn a mabwysiadu'r Strategaeth Toiledau Lleol atodol.

**2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Mae rhan 8 o'r Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i lunio a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer eu hardal. Mae'r Ddeddf yn gwneud hi'n ofynnol i gynnal adolygiadau cyson a chyflwyno adroddiadau cynnydd yn ddilynol. Mae'r strategaeth bresennol yn dyddio nôl i 2019, ac rydym wedi ei ddiweddaru yn unol â'r gofyn. Gofynnir felly i'r Cabinet fabwysiadu'r Strategaeth Toiledau Lleol 2025.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir / Cyflwyniad**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ym Mai 2017. Daw'r Ddeddf ag ystod o gamau gweithredu ymarferol ynghyd ar gyfer gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno gwaith darparu toiledau, a strategaethau toiledau lleol yn benodol. O safbwynt cyfleusterau cyhoeddus, nod cyffredinol y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymunedau o ran toiledau ac yna'n defnyddio dull strategol a thryloyw i ddiwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posib.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru gyfrifoldeb i:

- Asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau yn eu cymunedau;
- Cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny;
- Llunio strategaeth toiledau lleol; a
- Adolygu'r strategaeth, diweddaru a chyhoeddi unrhyw ddiwygiadau.

Bydd Cyngor Gwynedd felly yn unol â'r argymhellion hyn yn parhau i fynd i'r afael gydag anghenion y gymuned ac i wella safonau cyfleusterau cyhoeddus sydd dan reolaeth yr awdurdod lleol.

**3.2 Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad**

Nod yn y strategaeth hon yw sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd er gwaethaf y ffaith fod adnoddau'r Cyngor yn prinhau. Pwyslais y strategaeth hon fydd sicrhau fod gan Wynedd ddarpariaeth ddigonol i'r dyfodol a'n bod yn gallu gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid i ddarparu modelau darparu amgen er mwyn llwyddo i gyflawni hyn. Bydd y strategaeth yn sicrhau:

- Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn dda;
- Uchafu argaeledd toiledau drwy bartneriaethau;
- Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill;
- Sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o leoliadau toiledau drwy ddefnyddio arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol;
- Asesu argaeledd a dosbarthiad y cyfleusterau yn ôl y galw;
- Darpariaeth addas o fewn y gyllideb sydd ar gael.

**3.3 Darpariaeth Toiledau Cyhoeddus**

Yr ydym â 60 o doiledau cyhoeddus yn ein cyfrifoldeb ac mae wedi bod yn bosibl cadw’r nifer uchel yma o doiledau yn agored drwy gynllun Partneriaeth Cynghorau Cymuned a Thref. Mae'r Cynllun Partneriaeth yn gweithio drwy i'r Cynghorau Cymuned a Thref gyfrannu tuag at gostau rhedeg y toiledau.

Mae’r cyfraniad cyllidol drwy’r drefn partneriaethu o £261,600 yn 2025/26 yn hanfodol at gyfarch cost flynyddol neu dymhorol rhedeg y toiled.

### 3.4 Toiledau Cymunedol

Caiff y Cynllun Grantiau Toiledau Cymunedol ei ariannu a'i reoli gan Gyngor Gwynedd. Mae'r Cynllun yma yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio cyfleusterau toiled mewn ystod o sefydliadau lleol cymeradwy yn ystod eu horiau agor. Darperir y cyfleusterau yn rhad ac am ddim a heb unrhyw ddisgwyliad y bydd defnyddwyr yn prynu nwyddau neu wasanaethau pan fyddant yn yr eiddo. Bydd angen i bob eiddo sy'n cymryd rhan i gadw eu toiledau yn ddiogel, glân, hygyrch a gyda digon o nwyddau. Yr uchafswm grant yw £500 y flwyddyn i bob lleoliad. Bydd yr union swm yn ddibynnol ar nifer yr oriau mae’r toiled ar gael mewn wythnos. I dderbyn y £500 llawn mae rhaid i’r toiled fod yn agored am 37.5 awr yr wythnos.

Ar hyn o bryd mae gennym 41 eiddo ar draws Gwynedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth arddangos o leiaf un arwydd a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar ei ffenestr neu ddrws i ddangos eu bod yn aelod o'r cynllun fel bod y cyhoedd yn gwybod bod ganddynt hawl i ddefnyddio'r toiledau. Mae cais wedi ei dderbyn gan un sefydliad pellach fydd yn derbyn archwiliad i weld os ydynt yn addas ai peidio.

### 3.5 Gwella Cyfleusterau

Mae’r adran wedi bod yn llwyddiannus yn denu arian o’r Gronfa Ffyniant Gyffredin – Gwynedd Ni er mwyn darparu gwelliannau i doiledau cyhoeddus. Cafwyd swm o £234,000 i uwchraddio toiledau cyhoeddus Abermaw ac Abersoch yn ystod 2025/26.

Bu i’r adran dderbyn bid cyfalaf o £80,000 i uwchraddio drysau talu mewn 3 o’r 5 toiled yn y sir ble mae ffi o 20 ceiniog yn daladwy. Bydd y peiriannau yn galluogi defnyddwyr dalu mewn ffordd “ddi-gyffwrdd” yn ogystal â gyda arian parod. Mae’r drysau wedi eu gosod yn nhoiledau ar y Maes ym Mhwllheli. Mae bwriad gosod y drysau talu yn nhoiledau’r Empire yng Nghaernarfon a thoiledau Dolgellau.

Mae gwaith wedi ei gwblhau yn ddiweddar ar uwchraddio toiledau yn Aberdyfi, Pwllheli a Criccieth yn dilyn grant o £140,000 drwy gronfa Gronfa Ffyniant Gyffredin - Pethau Pwysig.

### 3.6 Toiledau “Changing Places”

Mae pobl gydag anableddau dysgu lluosog ynghyd â phobl gydag amhariadau corfforol eraill yn aml angen cyfarpar ychwanegol a gofod er mwyn iddynt allu defnyddio’r toiledau yn gyfforddus ac yn ddiogel. Nod toiledau “Changing Places” ydy cyfarch yr anghenion yma.

Er nad oes gan Cyngor Gwynedd ddarpariaeth o’r math yma ei hun mae tri safle gyda darpariaeth ‘changing places’ o fewn y sir sef Gorsaf Rheilffordd Ffestiniog ac Eryri yng Nghaernarfon, Canolfan Pontio ym Mangor a Chanolfan Crefft Corris.

Nodir nad yw’n ofyn statudol cynnwys toiledau ‘changing places’ mewn unrhyw gynllun newydd. Os bydd cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau o’r fath, bydd y Cyngor yn ystyried pob cyfle wrth symud ymlaen, yn enwedig os derbynnir grant i ddatblygu cyfleusterau newydd. Yn ddelfrydol mae angen i gyfleusterau ‘changing places’ gael eu lleoli o fewn safle sydd wedi ei staffio megis llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol neu amgueddfeydd er mwyn osgoi pryderon ynghylch fandaliaeth.

### 3.7 Hyrwyddo

Mae lleoliad toiledau Gwynedd i’w gweld ar MapDataCymru sy’n cynnwys lleoliad holl doiledau cyhoeddus Cymru. Mae hefyd rhestr o doiledau Gwynedd ar wefan y Cyngor sydd yn nodi lleoliad ac os ydyw yn doiled tymhorol a’i peidio. Mae hefyd rhestr o’r toiledau cymunedol sydd ar gael ar draws Gwynedd ar y wefan yn nodi lleoliad, oriau agor a pha fath o gyfleusterau sydd ar gael yn y lleoliad. Bydd yr adran yn edrych ar ffyrdd o hyrwyddo’r toiledau drwy ddefnyddio uned fusnes yr Adran, sydd ag arbenigedd mewn meysydd cyfathrebu ac e-ddatblygu.

### 3.8 Ymgynghori

Gan bydd angen llunio strategaeth newydd ar gyfer y cyfnod 2029 ymlaen bydd yr adran yn cynnal ymgynghoriad gyda’r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

## 3.9 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Wrth ddatblygu'r strategaeth hon roedd rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth lawn i’r Ddeddf.

Mae'r Strategaeth Toiledau Lleol yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd eu dilyn i sicrhau ein bod yn datblygu strategaeth gynaliadwy:

- Ystyried pwysigrwydd cydbwyso anghenion byr dymor gyda'r angen hefyd i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor;
- Gweithredu mewn modd integredig;
- Cydweithio ag eraill er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy;
- Cynnwys pobl yn y penderfyniadau fydd yn effeithio arnynt; a
- Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

## 3.10 Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi’r strategaeth yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru.

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd dyfarniad gan yr oruchaf lys fod rhyw, o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010, yn golygu rhyw biolegol yn unig. Rydym fel Cyngor yn disgwyl i ddefnyddwyr barchu'r dyfarniad yma.

Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod nad oes gennym ddarpariaeth addas ar gyfer pobl trawsryweddol ac anneuol yn y mwyafrif o'n toiledau. Gobeithiwn bydd canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rhoi arweiniad pellach i ni ar hyn.

Un opsiwn sy'n cael ei ystyried gan rai mudiadau yn y tymor byr yw'r defnydd o doiledau hygyrch. Nid yw hynny yn bosib yn nhoiledau hygyrch Gwynedd gan mai dim ond gyda goriad “radar” maent yn gallu cael eu hagor sydd yn arbennig i bobl sy’n anabl.

Mae’r dyfarniad diweddar wedi cael ei ystyried yn yr asesiad cydraddoldeb ar gyfer y Strategaeth Toiledau Lleol 2025. Gweler copi o’r asesiad llawn wedi ei ddiweddaru yn Atodiad 3.

### 3.11 Camau nesaf

Nodir y camau allweddol ac amserlen fel y ganlyn:

| Camau Nesaf | Pryd |
|---|---|
| Cyhoeddi adolygiad o'r Strategaeth Toiledau Lleol yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet | |
| Adolygu'r strwythur codi tal ar rai toiledau'r Sir drwy osod drysau talu o'r newydd gan gynnwys cyfleon talu gyda cherdyn neu arian parod | Hydref, 2025 |
| Adolygu'r ddarpariaeth o fewn adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys llyfrgelloedd ayb i sicrhau uchafu'r defnydd i'r cyhoedd ble mae'n bosibl | Ionawr, 2026 |
| Parhau i hysbysu a diweddaru'r Cynllun Grant Cymunedol i fusnesau lleol fel ffordd o gael darpariaeth ychwanegol mewn ardaloedd ble mae'r angen fwyaf wedi ei adnabod. | Parhaus |
| Adolygu'r ddarpariaeth bresennol o doiledau cyhoeddus a monitro'r drefn glanhau er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol ac effeithlon | Ebrill, 2026 |
| Ymchwilio i gyfleon am grantiau i ddatblygu ymhellach a chydweithio gydag adrannau'r Cyngor a phartneriaid ac eraill i gynyddu'r ddarpariaeth o gyfleusterau 'Changing Places' sydd ar gael yng Ngwynedd o fewn adeiladau'r Cyngor | Parhaus |
| Adolygu'r Bartneriaeth gyda Chynghorau Cymuned a Thref | 2025/26 |
| Parhau i ddenu cyfleon am grantiau i uwchraddio'r stoc toiledau cyhoeddus | Parhaus |
| Edrych ar opsiynau gwahanol ar gyfer nodweddion amgylcheddol a datblygiadau ynni cynaliadwy | Parhaus |
| Fe fydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Heddlu, Diogelwch Cymunedol a thrigolion, grwpiau cymunedol ac eraill i sicrhau bod y cyfleusterau mor ddiogel â phosib | Parhaus |
| Adolygu'r Strategaeth a chynnal ymgynghoriad | Cyn 2029 |

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae mabwysiadu’r Strategaeth yma yn cwrdd â gofynion statudol sydd ar y Cyngor. Fel gwelir o’r adroddiad blaen, mae’r maes hwn yn un lle bu sawl her ariannol yn y gorffennol ac ymdrechion i ddarganfod ffyrdd amgen o ariannu’r gwasanaeth. Bydd swyddogion Cyllid yn parhau i gefnogi a chynorthwyo’r swyddogion perthnasol wrth i’r cynlluniau yn y strategaeth ddatblygu.

### 4.2 Swyddog Monitro

Mae’r angen i adolygu Strategaeth Toiledau Cyhoeddus yn drefniant statudol. Mae’r gofynion statudol sydd yn ynghlwm ac adolygu'r Strategaeth wedi eu hamlinellu yn briodol yn yr adroddiad ynghyd a’r camau a gymerwyd i’w cyfarch.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 – Strategaeth Toiledau Lleol

Atodiad 2 – Darpariaeth Bresennol o Doiledau Cyhoeddus

Atodiad 3 – Asesiad Cydraddoldeb